
E Bwletin Un Llais Cymru rhif 10 View in browser




## Newyddion o Un Llais Cymru:

Croeso i Rifyn 10 o E-fwletin Un Llais Cymru. Mae'r rhifyn yma yn llawn o'r wybodaeth ddiweddaraf am ein prosiect Costau Byw a'r rhaglen Lleoedd lleol ar gyfer natur, ynghyd â newyddion allweddol a chyfleoedd i gefnogi eich gwaith mewn cymunedau lleol.

---

## Newyddion

### GRANTIAU NEWYDD AR GAEL ‼

🆕 **Dwy Ffrwd Grant Cydraddoldeb a Chynhwysiant Newydd – Nawr ar agor!**

1️⃣ **Arloesi a Gweithio mewn Partneriaeth i fynd i'r Afael ag Anghydraddoldeb a Hyrwyddo Cynhwysiant**

💰 **Cyfanswm y gronfa: £450,000**

1. Gwobrau'n dechrau o **£40,000**

1. Yn ddelfrydol ar gyfer **ceisiadau cydweithredol**, cronni adnoddau, a modelau cymorth croestoriadol.

2️⃣ **Grant Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu**

💰 **Cyfanswm y gronfa: £750,000**

Wedi'i gynllunio i ariannu ymwybyddiaeth ac ymgysylltu i hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant. Dwy haen ar gael:

1. **£2,000–£9,999**: Ar gyfer mentrau ar raddfa lai

1. **£10,000–£100,000**: Ar gyfer mentrau ar raddfa fwy.

📌 *Gall sefydliadau ar lawr gwlad wneud cais fel cydweithredwyr gyda sefydliad trydydd sector arweiniol (elusen neu gwmni cofrestredig).*

📅 **Dyddiadau Allweddol**

1. **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau**: 16 Tachwedd 2025

1. **Dyddiad hysbysu ymgeiswyr llwyddiannus**: Diwedd Rhagfyr 2025

1. **Cyfnod cyflawni'r prosiect**: Tan 30 Medi 2026

I gefnogi ymgeiswyr:

1. Cynhelir yr holl ganllawiau ac adnoddau ar **tudalen we bwrpasol**: Gwneud cais am gyllid o dan y rhaglen grant cydraddoldeb a chynhwysiant | LLYW.CYMRU

1. **Gall CGGC** a Chynghorau Gwirfoddol Sirol (CVCs) **CVCs** gynnig cymorth gyda cheisiadau am gyllid: Cefnogi'r Trydydd Sector Cymru.

1. **Bydd gweithdai** yn cael eu cynnal i gynnig rhagor o wybodaeth - manylion i ddilyn

Mae hwn yn gyfle unigryw i helpu i lunio dyfodol cydraddoldeb yng Nghymru. Rydym yn eich gwahodd i wneud cais am gyllid i gefnogi eich gwaith wrth hyrwyddo cydraddoldeb, cynhwysiant a hawliau dynol.🔗 **Ewch i Gwneud cais am gyllid o dan y rhaglen grant cydraddoldeb a chynhwysiant | LLYW.CYMRU i gael manylion llawn a chanllawiau ymgeisio.**

------------------------------

**Gweminarau Cadw Cymru'n Daclus**

📢 **Yn Galw ar bob Cyngor Cymuned a Thref yng Nghymru!** 📢

Mae'n bleser gan yr elusen amgylcheddol, **Cadwch Gymru'n Daclus,** eich gwahodd i ddwy weminar wedi eu cynllunio i'ch helpu i wella eich amgylchedd a'ch cymuned leol.

Mae'r rhain yn gyfleoedd gwych i glywed gan gyd-gynghorau cymuned, cael eich ysbrydoli gan eu prosiectau llwyddiannus, cael mewnwelediad gwerthfawr, rhannu profiadau, a chael atebion i'ch cwestiynau.

🌳 **Gweminar Gofod Gwyrdd a Bioamrywiaeth**

**Dyddiad:** Dydd Iau 23 Hydref 2025

**Amser:** 10:30am - 12:00pm

Mae'r weminar hon ar gyfer cynghorau sydd eisiau rhoi hwb i fioamrywiaeth lleol a gwella eu mannau gwyrdd. Byddwn yn cynnwys:

- Y cynllun **Lleoedd Lleol ar gyfer Natur,** sydd yn cynnwys pecynnau gardd am ddim a chymorth i greu a gwella gofod natur.

- **Gwobr y Faner Werdd**, meincnod ar gyfer parciau a gofod gwyrdd.
- **Gwasanaethau contract Cadwch Gymru'n Daclus** ar gyfer rheoli a gwella ardaloedd awyr agored ar gyfer natur a lles.

**🚮 Gweminar Ansawdd Amgylcheddol Lleol**

**Pryd:** Dydd Mercher 5 Tachwedd 2025

**Amser:** 10:30am - 12:00pm

Mae'r sesiwn hon ar gyfer cynghorau sydd eisiau mynd i'r afael â materion ansawdd amgylcheddol allweddol. Bydd y pynciau'n cynnwys:

- Trefnu a chefnogi **gweithgareddau codi sbwriel cymunedol**.
- **Diweddariadau polisi sbwriel** yn cynnwys y Cynllun Dychwelyd Ernes i ddod.
- Rheoli a gwella **'binfrastructure'** (lleoli strategol a'r math o finiau).
- Ffyrdd effeithiol o fynd i'r afael â **baw cŵn** a diweddariadau ar ymgyrch Cadwch Gymru'n Daclus 2025/26. 💩
- Gwasanaethau contract Cadwch Gymru'n Daclus i fynd i'r afael â sbwriel a gwastraff

Mae'r ddwy weminar am ddim a byddant yn darparu gwybodaeth werthfawr y gellir gweithredu arni ar gyfer eich cyngor.
Gallwch gofrestru ar gyfer gweminarau hyn trwy wasgu ar eich dewis teitl yma:

🌳 Gweminar Gofod Gwyrdd a Bioamrywiaeth

**Dyddiad:** Dydd Iau 23 Hydref 2025

**Amser:** 10:30am - 12:00pm

🚮 Gweminar Ansawdd Amgylcheddol Lleol

**Pryd:** Dydd Mercher 5 Tachwedd 2025

**Amser:** 10:30am - 12:00pm

Bydd gwasgu ar y dyddiad yn agor ffurflen gofrestru fer, ac wedi ichi lenwi'r ffurflen hon bydd dolen y cyfarfod yn cael ei danfon atoch yn syth trwy ebost.

**Ysgrifennwch eich cyfeiriad ebost yn ofalus neu ni fyddwch yn derbyn y ddolen.**

------------------------------

Cliciwch yma i weld yr adroddiad

**Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth 2026–27**

Mae'n bleser gennyf amgáu'r Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth ar gyfer 2026–27. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu penderfyniadau arfaethedig y Comisiwn ar gydnabyddiaeth, treuliau a buddion aelodau etholedig a chyfetholedig ar draws prif gynghorau Cymru, cynghorau cymuned a thref, awdurdodau tân ac achub, ac awdurdodau parciau cenedlaethol.

Dyma'r adroddiad drafft cyntaf ers i'r Comisiwn gymryd cyfrifoldeb am y cylch gwaith hwn gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Mae'n adlewyrchu parhad o'r fframwaith cadarn a etifeddwyd, tra hefyd yn cychwyn adolygiad sy'n edrych ymlaen o feysydd allweddol gan gynnwys:

· Taliadau adsefydlu i gynghorwyr sy'n aflwyddiannus wrth geisio cael eu hail-etholi;

· Y fframwaith cydnabyddiaeth ar gyfer rolau uwch mewn prif gynghorau a phwyllgorau corfforaethol ar y cyd;

· Y fethodoleg ar gyfer uwchraddio blynyddol, gan gynnwys ystyried a yw'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn parhau i fod y mesur mwyaf priodol;

· Ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac Un Llais Cymru.

Mae'r Comisiwn wedi cynnig bod cyflog sylfaenol aelodau etholedig yn cynyddu i £21,044, yn unol â'r cynnydd mewn enillion cyfartalog. Mae'r cynnydd yn y cyflog blynyddol sylfaenol yn 6.4%, ac rydym yn cynnig cynnal y strwythur bandio presennol ar gyfer rolau uwch. Mae rhagor o fanylion, gan gynnwys lefelau cyflog a lwfansau penodol, wedi'u nodi yn yr adroddiad amgaeedig.

Mae'r drafft bellach ar agor i ymgynghori arno tan **18 Tachwedd 2025**, ac mae'r Comisiwn yn croesawu adborth gan bob rhanddeiliad i lywio'r penderfyniadau terfynol, yr ydym yn bwriadu eu cyhoeddi erbyn diwedd y flwyddyn.

------------------------------

## Lansio Ymgynghoriad tRESP

NESO
National Energy System Operator

Rydyn ni'n falch o gyhoeddi lansiad yr ymgynghoriad Cynllunio Strategol Ynni Rhanbarthol trosiannol (tRESP). Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am chwe wythnos rhwng **23 Medi** a **3 Tachwedd 2025**.

**Beth yw tRESP?**

Mae Ofgem wedi gofyn i NESO ymgymryd â rôl cynllunio strategol ynni rhanbarthol (RESP) newydd. Bydd y rôl yn arwain at newidiadau i'r ffordd y mae rhwydweithiau dosbarthu trydan a nwy yn cael eu cynllunio ledled Prydain Fawr.

Bydd un ar ddeg o gynlluniau strategol ynni rhanbarthol pwrpasol yn cael eu cynhyrchu ar gyfer Cymru, yr Alban a naw rhanbarth yn Lloegr. Bydd y cynlluniau

hyn wedyn yn cael eu defnyddio fel mewnbwn allweddol i gynlluniau busnes y cwmnïau rhwydwaith dosbarthu trydan a nwy. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rhwydweithiau ynni'n cefnogi'r gwaith o gyflawni uchelgeisiau lleol a chenedlaethol ar gyfer twf economaidd a sero net. Bydd y set gyntaf o RESPs llawn yn cael eu cyhoeddi erbyn diwedd 2027.

Mae tRESP wedi cael ei ddatblygu i bontio rhwng y dull presennol o gynllunio rhwydweithiau ynni lleol, a'r dull RESP newydd.

Mae tRESP yn canolbwyntio ar gefnogi rownd nesaf cynlluniau busnes gweithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu trydan, ar gyfer 2028-33, sef y cyfnod rheoli prisiau ED3. Er mwyn cyd-fynd â'r amserlenni ar gyfer datblygu cynlluniau gweithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu, mae angen i ni gyhoeddi tRESP erbyn diwedd mis Ionawr 2026.

**Pam ymgynghori nawr?**

Rydyn ni wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu tRESP. Rydyn ni wedi bod yn rhannu ein gwaith ac yn gwahodd ac yn ystyried sylwadau gan randdeiliaid ers mis Mawrth 2025. Rydyn ni'n parhau â'r dull hwn ar gyfer yr ymgynghoriad tRESP, gan ei ddefnyddio fel cyfle i rannu a gwahodd sylwadau ar ein gwaith diweddaraf. Drwy ymgynghori â'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid nawr, bydd hyn yn ein helpu i gyhoeddi fis Ionawr 2026.

**Hyd a lled yr ymgynghoriad**

Rydyn ni'n gofyn am eich adborth ar y canlynol:

- **Y cyd-destunau ar gyfer y Gwledydd a'r Rhanbarthau:** trosolwg ar gyfer pob gwlad a rhanbarth RESP, yn seiliedig ar ddata sydd ar gael i'r cyhoedd a gwybodaeth rydyn ni wedi'i chasglu drwy ein gwaith maes hyd yma yng Nghymru, Lloegr a'r Alban
- **Llwybrau:** llwybrau tymor byr a thymor hir at sero net ar gyfer pob gwlad a rhanbarth, gan flaenoriaethu technolegau cynhyrchu a galw a fydd yn cyfrannu fwyaf at y cynnydd yn y galw yn ystod y cyfnodau brig yn y dyfodol
- **Rhagdybiaethau Cynllunio Cyson:** set o ragdybiaethau i sicrhau bod gweithredwyr y rhwydweithiau dosbarthu yn defnyddio'r llwybrau tRESP mewn ffordd gyson
- **Angen Buddsoddi Strategol:** nodi prosiectau allweddol sydd angen buddsoddiad mewn rhwydweithiau dosbarthu trydan ond nad ydynt yn y broses cysylltiadau eto.

**Sut mae ymateb**

- Mae'r ymgynghoriad ar agor rhwng **23 Medi a 3 Tachwedd** ar ein gwefan: Ymgynghoriad tRESP NESO
- Byddwn yn cynnal y rownd nesaf o Fforymau RESP ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau rhwng **13 a 23 Hydref 2025**. Mae manylion llawn a dolenni i ymuno ar gael ar ein gwefan. Bydd **Fforum Cymru** ar **16 Hydref, 10:00:** Cofrestrwch yma

Rydyn ni'n eich annog i gymryd rhan a rhannu eich barn i helpu i lunio dyfodol y gwaith cynllunio ynni yn eich gwlad neu ranbarth. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr ymgynghoriad, cysylltwch â: box.consultations.RESP@neso.energy

Chwarae Cymru Play Wales

Cylchgrawn

Gweler  isod ddolen  i'r rhifyn diweddaraf o *Chwarae dros Gymru*. Mae'r cylchgrawn *Chwarae dros Gymru* yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn ac mae'n darparu amrywiaeth o wybodaeth ac erthyglau defnyddiol sy'n ymwneud â chwarae plant a fydd o ddiddordeb i Gynghorau Tref a Chymuned. Os gwelwch yn dda, allwch chi ddosbarthu hyn ledled eich rhanbarth.

Mae'r rhifyn diweddaraf ar gael ar:
https://chwarae.cymru/publications_category/play-for-wales-issue-65/

Mae copi printiedig o'r cylchgrawn hefyd yn cael ei bostio i Glerc pob Cyngor Tref a Chymuned yng Nghymru. Os ydych chi'n gwybod am unrywun sydd heb dderbyn copi, gofynnwch iddynt gysylltu â ni drwy post@chwarae.cymru os gwelwch yn dda.

Amgaeir y ddolen i'r Datganiad Ysgrifenedig: Diweddariad ar gamau gweithredu i gefnogi rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cynghorau cymuned a thref gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai gyda'r neges hon.

Trafnidiaeth Cymru Transport for Wales

Cymerwch yr arolwg

**Yn Trafnidiaeth Cymru (TrC), rydym wedi ymrwymo i wneud teithiau ar fws a beic yn fwy cynhwysol, ymarferol a chroesawgar i bawb.**

Rydym yn lansio astudiaeth i ddeall sut y gallai beiciau a bysiau weithio'n well gyda'i gilydd ledled Cymru. Mae'r astudiaeth hon yn y cyfnod cynnar – nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto. Bydd eich adborth yn helpu i arwain ein ffordd o feddwl yn y dyfodol a llunio gwelliannau posibl.

Byddwn yn gofyn:

- Sut ydych chi'n cyfuno beicio a theithio ar fws ar hyn o bryd?
- Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws neu'n fwy deniadol?
- A allai integreiddio gwell annog mwy o bobl i feicio neu ddefnyddio bysiau?

Mae'r arolwg ar agor o **29 Medi i 19 Hydref** ac mae pob ymateb yn cyfrif – felly rhannwch yr arolwg gyda'ch cysylltiadau. Rydym wedi atodi graffeg hyfryd y gellir ei defnyddio ar eich sianeli cyfryngau cymdeithasol. Cymerwch yr arolwg nawr.

------------------------------

Archwilio Cymru
Audit Wales

Cylchlythyr ar ei newydd wedd

Rydym wrth ein boddau i lansio cylchlythyr Archwilio Cymru sydd newydd ei adfywio - eich ffynhonnell ar gyfer y newyddion, mewnwelediadau a'r straeon diweddaraf o bob rhan o'n sefydliad.

Gyda chynllun glanach, delweddau mwy miniog, a llywio mwy sythweledol, mae'r dyluniad newydd yn ei gwneud hi'n haws nag erioed i gael gwybod am ein gwaith a'n heffaith. P'un a oes gennych ddiddordeb yn ein hadroddiadau diweddaraf, digwyddiadau sydd i'w dod, neu'r cyfleoedd gwaith diweddaraf, mae'r cylchlythyr yn dod â'r cyfan at ei gilydd mewn un man bywiog, hygyrch.

Rydym hefyd wedi ei wneud yn fwy deinamig - felly p'un a ydych chi'n darllen ar eich bwrdd gwaith neu'n dal i fyny ar eich ffôn, mae'r profiad yn ddi-dor.

---

## Werth ffeindio amser i'w wylio ar wefan Un Llais Cymru:

### Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau:

**Dogfennau Llywodraethu Enghreifftiol a chanllawiau i Gynghorau :**

Mae Un Llais Cymru wedi cyhoeddi trefniadau enghreifftiol i helpu Cynghorau i redeg yn effeithiol a chyflawni eu rhwymedigaethau statudol. Rydym hefyd yn dosbarthu canllawiau statudol a chanllawiau eraill.

Rydym yn adolygu’r trefniadau hyn yn rheolaidd, gan helpu Cynghorau i

gynnal fframwaith llywodraethu cadarn

Mae polisi Pryderon a Cwynon newydd wedi cael ei ychwanegu i'r wefan ac wedi ei yrru allan i clercod Cynghorau sydd yn aelodau

**Cliciwch ar y ddolen i weld pa ddogfennau sydd ar gael**

**Mwy o Fanylion**

**......................**

## Nodiadau Datblygu Ymarfer:

**Nodiadau Datblygu Ymarfer :**

Mae Un Llais Cymru wedi creu Nodiadau Datblygu Ymarfer – canllawiau syml i helpu Cynghorau i ddeall tasgau blynyddol allweddol ac i roi cyngor ar weithgareddau eraill y cyngor.

Nodyn Datblygu Ymarfer 7 – mae hwn wedi'i ddiweddaru i fynd i'r afael â'r cwestiwn o ymddiheuriadau am absenoldeb (paragraffau 5.1 a 5.2)

**Gweler mwy yma**

## Dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru:

**Cynghorwyr sydd yn dymuno mynychu hyfforddiant - cysylltwch a'ch clerc er mwyn iddynt llogi lle ichi ar y sesiwn penodol**

**Dyddiadau hyfforddiant yma**

---

## SWYDDI

## Swyddi gwag yn y sector Cynghorau Cymuned a Thref:

**Swyddi Gwag:**

Fel rhan o'r aelodaeth flynyddol, mae Un Llais Cymru yn cynnig cyfle i Gynghorau Cymuned a Thref sy'n aelodau hysbysebu swyddi gwag sy'n ymwneud â'r sector, megis Clercod, Swyddogion Cyllid Cyfrifol, a rolau staff eraill.

**Gweler pob swydd gwag yma**

**Mwy o Fanylion**

## Swyddi Llywodraeth Cymru

Mae gyrfa yng Ngwasanaeth Sifil Cymru yn cynnig:

- cyfle i wneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru
- dysgu yn y swydd a chyfleoedd da i ddatblygu gyrfa
- oriau gweithio hyblyg a buddion cynhwysfawr.

Mae yna wahanol ffyrdd o ymuno â'r gwasanaeth sifil yng Nghymru.

.

I weld yr hysbysebion diweddaraf ar gyfer penodiadau cyhoeddus yng Nghymru, ewch i:

Dysgu – Penodi Cadeirydd - Dysgu Proffesiynol ac Arweinyddiaeth Addysg Cymru –

**Y dyddiad cau ar gyfer yr apwyntiadau uchod yw 10/10/2025 am 16:00.**

---

## Cadwch y Dyddiad

### Digwyddiad ar y Cyd 2025: SLCC ac Un Llais Cymru

**Noder: Digwyddiad yn yr iaith Saesneg yn unig yw'r digwyddiad hwn.**

### Rheoli Amgylchedd Newidiol – Managing a Changing Environment

Ymunwch â ni am gynhadledd rithwir ddiddorol **ddydd Mercher 12 Tachwedd 2025**, yn gyfan gwbl ar gyfer clercod, gweithwyr cynghorau lleol a chynghorwyr yng Nghymru, a gynhelir yn falch gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol (SLCC) ac Un Llais Cymru.

Gyda'r thema amserol 'Rheoli Amgylchedd Newidiol', bydd y digwyddiad hwn yn archwilio sut y gallwch chi lywio heriau sy'n esblygu mewn llywodraeth leol.

Bydd y rhai sy'n mynychu yn clywed mewnwelediadau gan Rob Smith, Prif Weithredwr SLCC, a Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru, yn ogystal ag elwa o fewnwelediadau hyfforddi ymarferol a sesiynau dan arweiniad arbenigwyr ar gyflogaeth, bioamrywiaeth a chynllunio, gan gynnwys y diweddaraf gan Gymorth Cynllunio Cymru.

Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i gysylltu, dysgu a chryfhau eich rôl wrth lunio cymunedau gwydn a chynaliadwy.

**Archebu Wedi'i Gwneud yn Hawdd!**

Mae archebu ar gyfer y digwyddiad hwn ar agor i bawb, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn aelodau. Os nad ydych eisoes wedi cofrestru ar ein gwefan, cofrestrwch yn syml. Mae'n broses gyflym a hawdd!

### I archebu eich lle, cliciwch yma: SLCC | SLCC & OVW Joint Event 2025

**Dyddiad:**
9:40am – 4:20pm, Dydd Mercher 12 Tachwedd 2025

**Pris**
£65 + TAW ar gyfer Aelodau o SLCC a'r rhai nad ydynt yn Aelodau o SLCC

---

## DIWEDDARIADAU PROSIECTAU A ARIANNWYD GAN UN LLAIS CYMRU:

## Newyddion am Brosiect Argyfwng Costau Byw

### Cyngor Tref Prestatyn - Astudiaeth Enghreifftiol Hwb Cynnes

Dewch i glywed am y cynllun Hybiau Cynnes gan Gyngor Tref Prestatyn, ymdrech hynod i feithrin gwytnwch cymunedol a chefnogaeth yn yr adegau anodd hyn. Bu'n Tîm Argyfwng Costau Byw yn ymweld ag un o'r hybiau i ddysgu am ei bwysigrwydd i drigolion lleol Prestatyn ar effaith a gaiff ar eu bywydau.

**Gweler Yr Astudiaethar ein gwefan**

Astudiaeth Achos

-----------------------------------------------------

Rhestr Gwiriadau Hanfodol ar gyfer y Gaeaf a'r Nadolig — canllaw parod i'w ddefnyddio llawn syniadau cyflym a rhad y gallwch eu dechrau rhoi ar waith ar unwaith.

**Gweler mwy yma**

**------------------------------**

**Lleoedd Lleol ar gyfer Natur:**

**Hyfforddiant a Gweminarau Bioamrywiaeth**

**Mwy o manylion**

---


**Un Llais Cymru / One Voice Wales**

24 College St, Ammanford SA18 3AF
United Kingdom



Mae'r E - Bwletin yma yn cael ei dosbarthu i bob Cyngor yng Nghymru . Dylid nodi os ydych yn dad tanysgrifio mi fyddwch yn colli mynediad i'r ddau fersiwn Cymraeg a Saesneg

Dad-Tanysgrifio / Unsubscribe

SENT BY mailer lite